**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

# Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol)

# (Cymru) 2000

## Y Cefndir

Mae Rhan III o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 yn ymwneud â darpariaeth yr awdurdodau lleol ar gyfer llety preswyl i bersonau y mae arnynt angen gofal a sylw oherwydd oedran, salwch neu anabledd.

Mae adran 22 o Ddeddf 1948 yn darparu ar gyfer codi taliadau am lety o'r fath.

Lle na all person dalu'r gyfradd safonol a bennir gan yr awdurdod lleol, mae adran 22(3) yn darparu yn benodol fod yr awdurdod i benderfynu pa gyfradd is y dylai'r person hwnnw ei dalu.

Wrth iddynt asesu gallu person i dalu, mae adran 22(4) yn darparu bod yr awdurdod lleol i ragdybio y bydd ar y person angen rhyw swm a ragnodir drwy gyfrwng rheoliadau ar gyfer eu hanghenion personol.

Mae'r rheoliadau presennol yn rhagnodi £15.45 yr wythnos at y diben uchod, a hynny yn lle'r swm cyfredol o £14.75 sydd wedi'i bennu ar hyn o bryd.

## Rheol Sefydlog 11.5

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**M. GERMAN OBE AC**

**Cadeirydd**

**Y Pwyllgor Deddfau**

4 Ebrill 2000